# Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019

**2019 dccc 2**

**RHAN 4**

GORFODAETH

*Rhannu gwybodaeth a'r pŵer i ddwyn achos troseddol*

### 18 Darparu a defnyddio gwybodaeth gan awdurdodau gorfodi

(1) Os yw awdurdod gorfodi yn gofyn am wybodaeth gan awdurdod gorfodi arall, rhaid i'r awdurdod arall hwnnw gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod yn ystyried y byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau sy'n arferadwy ar wahân i fod o dan y Rhan hon).

(2) Yr wybodaeth y gellir gofyn amdani gan awdurdod gorfodi o dan is-adran (1) yw gwybodaeth y mae'r awdurdod hwnnw wedi ei chael—

(a) o dan yr adran hon, a

(b) fel arall wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(3) Caiff awdurdod gorfodi ddefnyddio gwybodaeth o fewn is-adran (5)(a), (b) neu (c) at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon.

(4) Yn ogystal â hynny, caiff awdurdod gorfodi ddefnyddio gwybodaeth o fewn is-adran (5)(a) neu (b) at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig ag arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) ("Deddf 2014").

(5) Yr wybodaeth yw honno—

(a) sydd wedi ei darparu iddo gan awdurdod gorfodi arall o dan is-adran (1);

(b) y mae'r awdurdod gorfodi wedi ei chael fel arall wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Rhannu gwybodaeth a'r pŵer i ddwyn achos troseddol. (See end of Document for details)*

(c) y mae ganddo, yn rhinwedd adran 36 o Ddeddf 2014, ganiatâd i'w defnyddio at ddibenion sy'n gysylltiedig ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 1 o'r Ddeddf honno.

(6) Nid yw adran 17(2) yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaethau a roddir i awdurdod gorfodi gan yr adran hon.

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 4 applied (ynghyd â modifications) (1.9.2019) by Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (Darpariaeth Drosiannol ar gyfer Tenantiaethau Byrddaliadol Sicr) 2019 (O.S. 2019/1151), rhlau. 1(2), **3**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 30(2)**

**I2** A. 18 mewn grym ar 1.9.2019 gan O.S. 2019/1150, **ergl. 2(a)**

## 19 Pŵer awdurdod trwyddedu i ddwyn achos troseddol

Caiff awdurdod gorfodi sy'n awdurdod trwyddedu ddwyn achos troseddol mewn cysylltiad â throsedd yr honnir iddi gael ei chyflawni o dan y Ddeddf hon mewn cysylltiad ag annedd sydd wedi ei lleoli yn ei ardal (ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 17(2)).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 30(2)**

**I4** A. 19 mewn grym ar 1.9.2019 gan O.S. 2019/1150, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019, Croes Bennawd: Rhannu gwybodaeth a'r pŵer i ddwyn achos troseddol.